YSGOL ABERCONWY

29.09.2025

Annwyl Riant/Warcheidwad,

**2025 Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion**

Caiff y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ei arwain gan Brifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Bob dwy flynedd, mae disgyblion ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r Rhwydwaith yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir yn yr arolwg yn cael ei defnyddio i lunio adroddiad pwrpasol ar gyfer pob ysgol, sy'n cefnogi eu gwaith i wella iechyd a lles eu disgyblion. Yn bwysig, ni ellir adnabod unrhyw ddisgybl unigol yn yr adroddiad hwn gan mai dim ond data cyfanredol sy'n cael ei rannu.

Mae ysgol eich plentyn yn cymryd rhan yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion y tymor hwn. Mae'r arolwg yn cael ei reoli gan Ipsos ar ran Prifysgol Caerdydd ac mae'n cael ei gwblhau ar-lein o dan oruchwyliaeth aelod o staff yr ysgol. Mae'n cynnwys cwestiynau ar ymddygiad iechyd, gan gynnwys deiet, ymarfer corff, ysmygu, alcohol, cyffuriau, bywyd ysgol a pherthnasoedd. Bydd nifer fach o gwestiynau sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 ac uwch yn unig. Mae pob disgybl yn dewis a ydyn nhw am gwblhau'r arolwg ai peidio a gallan nhw hepgor unrhyw gwestiwn nad ydyn nhw am ei ateb.

Ar ddiwedd yr arolwg, gwahoddir disgyblion i roi eu henw, dyddiad geni a chod post at ddibenion

Dear Parent/Guardian,

**The SHRN Student Health and Well-being Survey 2025**

The School Health Research Network is led by Cardiff University in partnership with the Welsh Government and Public Health Wales.
Every two years, learners attending secondary schools in the Network are invited to take part in The SHRN Student Health and Well-being Survey. The information collected in the survey is used to compile a bespoke report for each school, which supports their work to improve their learners' health and well-being. Importantly, no individual learner can ever be identified within this report as only aggregate data is shared.

Your child's school is taking part in The SHRN Student Health and Well-being Survey this term. The survey is being managed by Ipsos on behalf of Cardiff University and is completed on-line under the supervision of a member of school staff. It contains questions on health behaviours, including diet, physical activity, smoking, alcohol, drugs, school life and relationships. Learners in Year 9 and above only will be asked a small number of questions relating to sexual behaviour. Each learner chooses whether or not they want to complete the survey and they can omit any question they do not want to answer.

At the end of the survey, learners are invited to give their name, date of birth and postcode for the purpose of data linkage research. This enables researchers to connect survey responses across different rounds of the two-yearly survey, in order to investigate how and why health and

YSGOL ABERCONWY

ymchwil cysylltu data. Mae hyn yn galluogi ymchwilwyr i gysylltu ymatebion i'r arolwg ar draws gwahanol rowndiau o'r arolwg sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, er mwyn ymchwilio i sut a pham mae iechyd a lles yn newid drwy'r glasoed. Mae hefyd yn caniatáu i atebion gael eu cysylltu'n ddienw â data arall sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd amdanyn nhw gan sefydliadau dibynadwy fel y GIG a Llywodraeth Cymru fel apwyntiadau meddygon teulu a chanlyniadau TGAU. Darllenwch fwy am gysylltu data ar y daflen hon.

Mae'n glir i ddisgyblion bod hyn yn wirfoddol, ac nid oes rhaid iddyn nhw roi'r wybodaeth hon os nad ydyn nhw eisiau. Bydd yr ysgol yn dangos recordiad fideo i'r disgyblion am hyn, y gallwch ei weld yma: www.shrn.org.uk/gdpr ynghyd â rhagor o wybodaeth am gysylltu data. Os na allwch chi gael mynediad at y fideo neu'r wefan, e-bostiwch shrn@cardiff.ac.uk neu cysylltwch â'ch ysgol i ofyn am daflen.

Bydd yr holl ddata yn cael ei drin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (2018) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a gallwch chi ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd data yma: https://www.shrn.org.uk/cy/gdpr-2/. Mae'r arolwg yn gwbl gyfrinachol oni bai bod ymateb disgybl yn codi pryderon am eu lles, ac yn yr achos hwnnw byddwn ni'n hysbysu swyddog diogelu'r ysgol os oes gennyn ni enw'r dysgwr. Mae Prifysgol Caerdydd yn defnyddio data'r arolwg i lunio Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ac ar gyfer ymchwil ar iechyd a lles pobl ifanc. Dim ond data cyfanredol, e.e. canran y bechgyn Blwyddyn 7 sy'n bwyta brecwast bob dydd, y mae'r Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr hyn yn ei gynnwys.

well-being change through adolescence. It also allows answers to be anonymously linked to other data that is routinely collected about them by trusted organizations like the NHS and Welsh Government such as GP appointments and GCSE results. Read more about data linkage in this leaflet.

It is made clear to learners that this is voluntary, and they do not have to provide this information if they do not want to. The school will show learners a video recording about this, which you can view here: www.shrn.org.uk/gdpr along with further information about data linkage. If you cannot access the video or website, please email shrn@cardiff.ac.uk or contact your school to request a leaflet.

All data will be treated in accordance with the Data Protection Act (2018) and the General Data Protection Regulations, and you can read our data privacy notice here: www.shrn.org.uk/gdpr. The survey is strictly confidential unless a learner response raises concerns about their welfare, in which case we will notify the school's safeguarding officer if we have the learner's name. Cardiff University use the survey data to compile The SHRN Student Health and Well-being Reports and for research into adolescent health. These Student Health and Well-being Reports contain only aggregated data, e.g. the percentage of Year 7 boys who eat breakfast daily.

I hope that you will be happy for your child to take part. If you have any queries, please do notify your school as soon as possible.

Yours sincerely,

Dr. Kelly Morgan
Director, SHRN


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED | +44 (0)1492 593243 | +44 (0)1492 592537 | INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK | WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Gobeithio y byddwch chi'n fodlon i'ch plentyn gymryd rhan. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, rhowch wybod i'ch ysgol cyn gynted â phosibl.

Yn gywir iawn,

Dr. Kelly Morgan
Cyfarwyddwr, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion



MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE